# Cyngor Cymuned Pentir

**Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 11eg o Ionawr 2018**
**yn Y Swyddfa, Parc Menai am 7pm.**

# Agenda

Gweddi

Presennol / Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion 9fed o Dachwedd 2017
Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

- Adroddiad o'r IBC 29/11/17 a 03/01/18
- Cadarnhad BDO iddynt fod wedi cwblhau eu archwyliad
- Ceisiadau Ad 137 - *Cylch Meithrin Penrhosgarnedd*
    - *Ysgol Y Garnedd*
    - Goriad
    - Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen
    - Theatr Bara Caws
    - Eisteddfaod Genedlaethol Yr Urdd
    - Cymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol Y Garnedd
    - Seindorf Arian Dyffryn Nantlle
    - Dawns i Bawb

Cytuno Praesept 2018-19 - Cais i fod i mewn hefo Cyngor Gwynedd erbyn 26ain o Ionawr

Adroddiad o'r Is Bwyllgor Asedau
Cyfarfod 23 o Dachwedd 2017

Ceisiadau Cynllunio diweddar ardal Pentir

- C17/1248/25/LL Adeiladu ty unllawr gyda myneddfa ar wahan a pharcio (cynllun dwiygiedig i un a wrthodwyd dan C17/0694/11/LL) 2, Maes Mawr, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2LR
- C17/1269/25/LL Dymchwel yr adeiladau presennol a codi 8 ty ynghyd a creu mynedfa a llecynnau parcio Land at Tai'r Efail, Penrhos Road, Bangor, Gwynedd
- Adborth o gyfarfod a Shon Williams parthed Llwybr yr Arfordir

Y Wefan Diweddariad ar ddatblygiad y Wefan

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
    - Plotiau yn y fynwent
    - Prydles Canolfan Penrhos
- Adroddiadau
    - Cysgodfan Rhyd y Groes
    - Hysbysfyrddau - gosod a caniatad

Materion y Cynghorwyr
Cyng M Baines Gor-yrru yn ardal Glasinfryn
Cyng B Jones Arwyddion Ar Werth ar lecynau glas yn ardal Penrhos - **Parcio Ysbyty Gwynedd**

# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 9fed o Dachwedd 2017 yn Parc Menai am 7pm**

**Presennol:**
Y Cyng. L James, D W Jones, J Pierce, C Hughes, T Anwyl-Williams . D Jones-Morris, R G. Roberts, B Jones, M Baines, H Griffiths a James Griffiths
E Jones (Clerc )

**Ymddiheuriadau**:
Y Cyng, R Jones.

**Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes**.
Yn ei sylwadau agoriadol croesawodd y Cadeirydd y Cyng James Griffiths yn ol i'r Cyngor a chydymdeimlo a'r Clerc am ei brofedigaeth ddiweddar

**Côd Ymddygiad**
Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen

**Cofnodion 14eg o Medi**
Cyng D W Jones yn cynnig eu bod yn gofnod cywir a'r Cyng M Baines yn eilio

**Materion yn codi o'r cofnodion**
Adroddwyd y byddai'r ddwy gysgodfan bws yn Pentir a Caerhun yn cael eu glanhau yn y dyddiau nesaf ynhyd ag arwyddion PENTIR ar yr A4244
TAW 2015-16 ag 2016-17.
Esboniodd y Clerc mae oddeutu £9K fyddai'r ad-daliad ddim yr £11K sonwyd amdano yn wreiddiol

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

- Adroddiad o'r IBC 24/10/17 dosbarthwyd cofnodion gan nodi nad oeddent wedi eu derbyn yn gywir tan yr IBC nesaf fyddai ymlaen ddiwedd Tachwedd
- BDO Y Clerc wedi cysylltu a BDO a chael ar ddeallt y dylem fod wedi galw Cyngor Llawn Arbennig i dderbyn a chymeradwyo y cyfrifon yn hytrach na dirprwyo y cyfrifoldeb i'r Is-Bwyllgor Cyllid.
- Ceisiadau Ad 137 - Mantolen ariannol gyfredol **Llais Ogwan** wedi cyrraedd a felly ystyrwyd eu cais ac argymell i'r Cyngor Llawn rhoi Cyfraniad o £300.00.
  Yn yr un modd argymhellwyd cyfraniad o £300.00 i **Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.**

Gan nad oedd Is-bwyllgor Asedau tan Mis Tachwedd atgoffwyd mae cyfrifoldeb yr Is Bwyllgor asedau yw adnabod prosiectau i'r Clerc ddarganfod amcanbrisiau ar eu cyfer a'i cyflwyno i'r Is-Bwyllgor Cyllid i allu cytuno ar swm y Praesept 2018-19

Ceisiadau Cynllunio ardal Pentir

- C17/1033/25/LL Diwygio amod 2 o ganiatad cynllunio C12/1347/25/LL er caniatau codi dau eiddo ar wahan ychwanegol gyda pharcio a thirweddu cysylltiedig
  Goetre Uchaf, Off Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd, LL572NT **Gwrthwynebu**
- Cais C17/1060/25/LL Codi uned gwyliau 4 llofft, mynedfa a tanc septig newydd -
  Tir yn Rhyd y Groes, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4YA **Gwrthwynebu**

Y Wefan Nid oedd gan y Cyng L James fawr o ddiweddariad onibai eu bod yn gobeithio y byddai'r Wefan yn fyw cyn y Nadolig.
Diolchwyd i'r Cyng am ei gwaith

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
  - Prydles Canolfan Penrhos – Dim datblygiad gan nad yw adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd wedi bod mewn cyswllt a'n Cyfreithwyr ni Gamlins. **Awgrymwyd os na fydd datblygiad yn weddol sydyn ein bod yn gofyn am gyfarfod a adran gyfreithiol y Cyngor Sir yn gynnar yn y flwyddyn newydd**

        - Catherine Cummins – Swyddog cyfathrebu Ysbyty Gwynedd yn awyddus i feithrin cyfathrebu gwell ar lefel gymunedol. **Cefnogi'r syniad**
- Adroddiadau
    - Cysgodfan Rhyd y Groes - Cyflenwr wedi cael problem derbyn paneli newydd ond yn addo y dylai fod yn ei lle ymhen mis. Mae am osod yr Hysbysfwrdd ym Mhentir yr un pryd

<u>Materion y Cynghorwyr</u>

**Cyng M Baines** - Yn aelod o PAD ag am holi os oedd modd i Gadeirydd y Cyng Cymuned fod yn rhan o'r grwp. Rhan o'i cyfrifoldeb yw adolygu Addysg Uwchradd Ogwen

**Cyng J Griffiths** – Wedi codi y mater am y pla llygod sydd yn Waenwen eisoes ond Cyngor Gwynedd yn bendant fod rhaid i'r trigolion dalu am y gwasanaeth.

**Clerc a Cyng M Baines i holi Cyng Gwynedd o ochr Iechyd yr Amgylchedd**

Yn absenoldeb **Cyng R Jones** oedd wedi cyfeirio at y ffaith fod y gwter wrth fynedfa at y Ganolfan yn Penrhos wedi cau gan grit a baw. **Y Clerc i holi Cyng Gwynedd**

**Cyng D Morris –Jones** 'Roedd yn awyddus i longyfarch y mudiad 'Parchu Pentir' ar eu ymdrechion a'i llwyddiant i godi arian i brynu a gosod diffibriliwr yn yr hen giosg

**Cyng L James** - Credai fod y cyn Gyng A Thomas ar fin gadael yr ardal a thybed oedd modd ei gwahodd i'n swper Nadolig **Cytunwyd**

Yn unol a'r arfer **Cyng T Anwyl** gymerodd gyfrifoldeb am drefniadau y Swper gan anelu tuag at 7fed neu 14eg o Rhagfyr

Daeth y cyfarfod i ben 9.30

Cyfarfod nesaf Nos Iau 11eg o Ionawr